

Doethineb Paratoi

Ymysg yr 'hen bethau' sydd acw mae lamp sy'n perthyn i gyfnod yr Iesu ar y ddaear ac yn gymorth i wneud *Dameg y Deg Geneth* (Mathew 25) yn fyw. 'Yr oedd pump ohonynt yn ffôl a phump yn gall' – dyna ddywed yr ail adnod yn y bennod, gan ein hatgoffa o bwysigrwydd paratoi ar gyfer yr hyn sydd i ddigwydd.

Erbyn yr amser y byddwch yn darllen y geiriau hyn fe fydd Ymddiriedolwyr y Cyfundeb wedi cyfarfod (28 Gorffennaf ar Zoom) i benderfynu ar y camau nesaf, a'r canllawiau ynglŷn ag agor ein hadeiladau. Fe ddaw'r wybodaeth i'ch sylw cyn gynted a bo modd drwy e-bost, gwefan EBC, ayyb. Gobaith y geiriau hyn yw eich annog i baratoi.

Paratoi Ymarferol

Mae'r canllawiau sydd wedi dod i law o Lywodraeth Cymru yn fanwl iawn. (Ewch i [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ailagor-mannau-addoli-coronafeirws.html](https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ailagor-mannau-addoli-coronafeirws-html) i weld y canllawiau yn llawn)

Nid wyf am restru'r gofynion yma, fe ddaw i'ch dwylo yn y man, ond da fyddai dechrau ystyried sut y gellir paratoi gofod yn eich capel gan gofio fod y rheol 2 fedr yn parhau. Felly bydd rhaid creu cynllun o ble mae'n bosib i bobl eistedd (a hynny nid yn ei sedd arferol!) a chreu asesiad risg.

Rwyf yn ffyddiog y byddwch yn darganfod fod y canllawiau a ddaw yn egluro'r gofynion yn glir gan awgrymu sut i ddod o hyd i'r arwyddion a'r nwyddau angenrheidiol.

Paratoi'n Greadigol

Drwy reidrwydd fe fydd rhaid newid natur y gwasanaeth gan nad yw'r rheolau presennol yn caniatáu canu na defnyddio unrhyw offeryn sydd yn defnyddio chwyth! Mae hyn yn creu gofod i greu deunydd a chyflwyniad gwahanol i'r arferol.



William Blake Wise a genethod ffôl a chall trwy ganiatâd Wikimedia

https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Blake_Wise_And_Foolish_Virgins_1826.jpg

Yn y cyfnod diweddar mae nifer o'n heglwysi wedi cynnal gwasanaethau ar-lein neu tros y ffôn, a llawer wedi cyrraedd rhai na fu'n mynychu yn arferol. Gobeithir gweld nifer yn parhau i ddarlledu ar-lein

hyd yn oed pan fyddant wedi dychwelyd i'r capel – ac fe glywch mwy yn y man am grantiau fydd ar gael i gynorthwyo hyn.

Paratoi'n Feddyliol

Mae nifer o'n haelodau wedi gorfod addasu wrth wynebu her y cyfnod clo, a sylweddolwn fod mynychu'r oedfa yn y dyfodol yn fater llawer mwy cymhleth nag agor drws. Efallai bydd nifer sydd wedi bod yn hunan ynysu yn mynd i fod yn hynod bryderus am ail-gychwyn. Rhaid wynebu'r her yn onest gan fod yn rasol gyda'r amrywiaeth barn sydd siŵr o godi yn ein plith.

Wrth gofio fy mhrofiad yn y Llynges, dysgais pa mor bwysig oedd paratoi ac ymarfer ar gyfer ymdrin â'r pethau anodd a ddaw i'n rhan. Yn yr un modd rhaid cydnabod bydd cyfnod yr ail-agor yn gosod mwy nag un sialens i ni gyd ond cofiwn wir bwrpas ein bodolaeth fel Eglwys, sef cyhoeddi'r Efengyl gan alluogi ein pobl i fod o wir wasanaeth i Dduw a'u cyd-ddyn.

Dyma estyn gwahoddiad cyffredinol felly i chwi beidio cymryd y gofynion a ddaw yn ormod o faich, nac yn ofid, ond yn yr amser sydd yn addas i chi'n lleol ddechrau paratoi'r ffordd i sicrhau fod y drws ar agor unwaith eto. Wrth gofio profiad y rhai oedd 'ddim yn gall' gadewch i ni geisio sicrhau fod ein holl baratoadau yn galluogi fflam y ffydd i losgi o'r newydd yn ein plith gan ymestyn Ei oleuni. Bydded gras a thangnefedd.

*Parch Marcus Wyn Robinson,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol*

Gweddi wrth baratoi i'r dyfodol

Arglwydd Dduw, awdur, lluniwr a chyfeiriwr amser – addolwn di. Addolwn di am bwy ydwyf ynot dy hun, am beth wnaethost er ein mwyn drwy Iesu Grist, am yr hyn a fyddi'n cyflawni ynom a thrwom drwy dy Ysbryd Glân.

Arglwydd, cyffeswn i ti fod y flwyddyn hon wedi dod â heriau annisgwyl i'n llwybrau. Gweddiwn dros y byd; dros y rhai sy'n galaru oherwydd effeithiau Covid 19, dros y rhai fu'n wasanaethu drwy'r adeg anodd, a'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer y dyfodol ansicr sydd o'n blaenau.

Ac wrth i ni feddwl sut y medrwn ni agor ein capeli'n ddiogel gofynnwn i ti ein harwain. Yr ydym am fod yn weision doeth yn y genhedlaeth hon. Dysga ni mai 'ofn yr Arglwydd yw dechrau doethineb.'

Arglwydd, yr ydym yn ildio'n hunain i ti drachefn.

A wnei di ein helpu i roi'n bryd ar gyflawni dy genhadaeth di yn y byd.

Dysga ni beth yw'r pethau rheiny o'n gorfennol y dylem eu rhoi o'r neilltu.

Dysga ni beth yw'r pethau newydd y dylem eu hyrwyddo i'r dyfodol.

Dysga ni beth yw'r pethau sydd angen i ni eu cadarnhau yn y presennol.

Rho i ninnau dy Obaith di. Gobaith anorchfygol, creadigol a hyderus.

Arglwydd yr ydym yn cyflwyno'n dyfodol i ti. Helpa ni i fod yn ddoeth.

Er mwyn Iesu Grist.

Amen

'Am gael hwn yn iaith ein mamau': Cofio Beibl 1620 (IV)

Llyfr litwrgiaidd, i'w osod ar ddarllenfa yn yr eglwys, oedd Beibl 1620, fel Beibl William Morgan yn 1588. Mae'n gyfrol anferth, maint 'ffolio mawr' y tro hwn (fel Beibl Saesneg 1611), ac ynddi 1172 o dudalennau. Bonham Norton a John Bill, partneriaid i'r argraffydd brenhinol Robert Barker (a argraffodd y Beibl Saesneg), a ymgymerodd â'r gwaith printio. Pwy a fu yn Llundain, yn arolygu'r gwaith wrth iddo fynd drwy'r wasg? Mae'n dra amlwg mai John Davies a ysgwyddodd y cyfrifoldeb hwnnw hefyd. Sonia'r bardd Rhisiart Phylip amdano 'draw Nghaer Ludd' yn gofalu a brintiad y Beibl, a chyfeiria Rhisiart Cynwal ato 'yn Lloegr fawr' yn

Trefnu adnewyddu'n iaith
A geiriau Duw, gywirwaith.

Mae'n gyfrol hynod o urddasol, a byddaf yn teimlo gwefr bob tro y gwelaf gopi: yr argraffiad cyntaf o'r Beibl Cymraeg yn y fersiwn y maged ein hynafiaid arno – a ninnau hefyd, y rhan fwyaf ohonom, rwy'n tybio.



*Beibl 1620 yn eglwys Llanwnda.
Yn ôl y cofnod achubwyd y gyfrol
o law môr ladron Ffrengig.*

https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Still_surviving..._-_geograph.org.uk_-_406078.jpg
ceridwen wedi ei drwyddedu drwy Creative Commons Attribution-ShareAlike 2.0 license

I Brotestaniaid o argyhoeddiad, fodd bynnag, nid llyfr i'w gaethiwo rhwng muriau'r llannau oedd y Beibl. 'Ni wasanaetha yn unig ei adael ef yn yr Eglwys, fel gŵr dieithr, ond mae'n rhaid iddo drigo yn dy stafell di, tan dy gronglwyd dy hun. Ni wasanaetha i ti ei gyfarch ef bob wythnos, neu bob mis, mal yr wyt ti ond odid yn arfer o gyrchu i'r Eglwys; ond mae'n rhaid iddo ef drigo gyda thi fel cyfaill yn bwyta o'th fara, fel anwyldd yn a phen-cyngor it'.' Daw'r geiriau hynyna o'r rhagymadrodd i'r 'Beibl bach', sef yr argraffiad hylaw – wedi'i brintio gan Robert Barker – a gafwyd yn 1630, ddeng mlynedd ar ôl y gyfrol ffolio. Dau o Gymry Llundain, y gwŷr busnes Syr Thomas Myddelton a Rowland Heylin, a ariannodd argraffu'r 'Beibl bach', a werthid am goron (pum swllt). Dyma'r gyfrol y canwyd amdani gan y Ficer Rhys

Prichard, Llanymddyfri (bu f. yn 1644, yr un flwyddyn â John Davies):

Mae'r 'Beibl bach' yn awr yn gyson
Yn iaith dy fam i'w gael er coron;
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw,
Mae'n well na thref dy dad i'th gadw.

Y 'Beibl bach' oedd y cyntaf o gannoedd o argraffiadau o'r Beibl a ddarparwyd ar gyfer eu defnyddio'n bersonal gan bobl Cymru. Mae i wroniaid megis Stephen Hughes a Thomas Gouge, Griffith Jones



Griffith Jones

(a'i ysgolion cylchynol, cyfrwng gwneud miloedd o Gymry yn llythrennog) a Thomas Charles (pensaer, ymhlith llu o bethau eraill, mudiad yr



Thomas Charles

ysgolion Sul yng Nghymru), a chyrrff megis y *Welsh Trust*, y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol (SPCK) a Chymdeithas y Beibl, le hanfodol yn hanes y diwyllio ysbrydol a deallusol a brofodd ein

enedd drwy'r Beibl Cymraeg. Eleni, ddwy ganrif a hanner ar ôl ei gyhoeddi gyntaf yn ei gyflawnder yn 1770, cofiwn yn arbennig am 'Feibl Peter Williams', y Beibl cyntaf i'w brintio yng Nghymru, o wasg John Ross yng Nghaerfyrddin. Dros y canrifoedd bu diweddarau – ac amrywio, nid bob amser er gwell – ar orgraff Beibl 1620, ond geiriau ac ymadroddion y fersiwn hwnnw a stampiwyd ar feddlw a chalon cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o'n hynafiaid, ac ynghlwm wrth hynny yr argyhoeddiad fod y geiriau hynny yn cyfrif.

A beth am heddiw? Yn ychwanegol at 'yr hen gyfieithiad' mae gennym *Y Beibl Cymraeg Newydd* a *Beibl.net*, a diolch amdanynt. Diolch hefyd am gyfraniad aruthrol y Cyngor Ysgolion Sul, a Chyhoeddiadau'r Gair. Onid y gwir, fodd bynnag, am ein cenedl, a ddaeth yn llythrennog drwy ddysgu darllen y Beibl, yw ei bod bellach – y mwyafrif ohonom –

yn genedl anlythrennog yn ei gynnwys ac yn fwy diafael fyth ar ei ddeall yn ystyriol? Efallai mai un o effeithiau llai annerbyniol yr argyfwng presennol yw'r alwad sy'n ymhyg ynddo inni asesu eto ein blaenoriaethau, fel unigolion ac fel cymdeithas. Beth fydd rhan y Beibl yn yr asesu hwnnw?

Ar dudalen deitl Beibl 1620 (a hefyd y 'Beibl bach') ceir wedi'u hargraffu ddwy adnod o'r Ail Epistol at Timotheus (3: 16-17):

Yr holl ysgrythur sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder: fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.

Hwyrach y bydd rhai am ofyn beth yn union a olygai awdur yr epistol wrth 'yr holl ysgrythur', neu pan ddywed mai 'gan ysbrydoliaeth Duw' y'i rhoddyd. (Gall rhai rhannau o'r Beibl ymddangos yn ddychrynllyd o ddynol eu hysbrydoliaeth. A ydych chi wedi darllen rhai o'r 'Salmuau dial' yn ddiweddar, neu ambell bennod yn Llyfr Josua?) Nid cwestiynau i'w hofni na'u hosgoi yw cwestiynau felly. Ond y fath dystiolaeth sydd yn y darn i ddylanwadau gwaredigol a chyfannol y Beibl! – y dylanwadau a brofodd pobl Dduw dros y cenedlaethau. Mae'r allwedd i'w profiad yn yr adnod sy'n blaenori'r ddwy a ddyfynnir (adnod, fel mae'n digwydd, a osodwyd gan William Morgan ar dudalen deitl Beibl 1588): honno yw'r un sy'n dweud, am yr ysgrythur lân, ei bod yn 'abl i'th wneuthur di yn ddoeth i iachawdwriaeth trwy'r ffydd sydd yng Nghrist Iesu' (2 Tim. 3: 15).

Argyhoeddiad John Davies oedd fod i'r Gymraeg ei rhan yn yr arfaeth ddwyfol. Meddai (yn rhagymadrodd ei Ramadeg, a gyhoeddwyd yn 1621, flwyddyn ar ôl y Beibl):

Yn wir ni ellir credu o gwbl y byddai Duw wedi ewyllysio i'r iaith hon gael ei chadw hyd yr amserau diwethaf hyn, a hynny ar ôl cynifer o laddfeydd ar y genedl, newidiadau mewn llywodraeth, ac ymdrechion gormeswyr, heblaw ei fod ef wedi ordeinio bod ei enw i gael galw arno yn yr iaith hon a'i fawrion weithredoedd i'w cyhoeddi ynddi.

Ein rhesymol wasanaeth ninnau yw cofio'n ddiolchgar y bendithion difesur a ddaeth drwy ei lafur ef a chyfieithwyr eraill y cyfnod modern cynnar – Richard Davies, William Salesbury, Thomas Huet, William Morgan, Edmwnd Prys, Richard Parry – yn rhoi inni Lyfr y llyfrau 'yn iaith ein mamau'.

Ceri Davies

Gol. Diolch i'r Athro Ceri Davies am y gyfres gyfoethog ac adeiladol oedd yn orhain hanes cyfraniad Beibl 1620. Diolchwn iddo am rannu ei ysgolheictod gyda ni a'n cyfoethogi bob un.

Adnabod Cymeriadau'r Testament Newydd – Yr Efengylau

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae fideo o'r deunydd i'w weld yn yr adran 'Gwersi Ysgol Sul i Oedolion' ar sianel deledu www.cristnogaeth.cymru

Gwers 4 Nicodemus

Gweddi

Arglwydd pob datguddiad, nesawn ger dy fron yn awr yn gofyn am gymorth i ddeall y darn y byddwn yn ei ddarllen, a'i berthnasedd yn ein bywydau ni. Wrth feddwl am y sectau crefyddol ym Mhalesteina yn ystod bywyd Iesu, gwelwn eu bod yn cyfiawnhau eu hunain ac yn gwarchod eu crefydd, heb fod yn agored i wrando ar Iesu. Maddau i ni pan fyddwn yn tybio ein bod yn gyson gywir ac yn fyddar i' th lais. Amen.

Darllen: Ioan 3:1–21; 7:50–52; 19:39

Cyflwyniad

Yn yr uned ddiwethaf, nodwyd fel roedd y Phariseaid a'r Sadwceaid wedi cynllunio i ladd Iesu. Heddiw, gwelwn enghraifft o Pharisead, ac yntau'n aelod o'r Sanhedrin, yn mynd at Iesu liw nos ac yn holi am y bywyd newydd. Roedd y gŵr duwiol hwn wedi camddeall llawer o bethau, ac yn eu plith yr angen i ddyn gael ei eni o'r newydd. I Nicodemus, dim ond un modd oedd yna i berson gael ei eni, sef o groth ei fam, tra mae Iesu yn sôn am ddyn yn cael ei eni o Dduw. Nid oedd y gŵr duwiol wedi deall hynny. Pwyslais Iesu oedd fod angen ailenedigaeth, nid yn yr ystyr gorfforol ond yn yr ystyr ysbrydol.

Nid trefn gymdeithasol yw crefydd, na dealltwriaeth academaidd, ond profiad ysbrydol o sancteiddrwydd Duw, a

gwerthfawrogi nad oes modd i ddyn ennill na hawlio'r profiad hwnnw. Daw'n brofiad real pan fydd yr unigolyn yn sylweddoli ei angen ac yn gwahodd Iesu i'w fywyd. Dim ond drwy fendith Iesu y gall y person edifeiriol brofi teyrnas Dduw. Gwyddai Nicodemus fod rhywbeth yn ei aflonyddu a bod gwacter yn ei fywyd, a bod gan Iesu'r modd i'w adfer. Edrydd Ioan yr hanes amdano yn dod at Iesu 'liw nos', pan na fyddai'n amlwg i neb arall beth roedd yn ei wneud. Ym mhennod 7, mae'n gwrthwynebu cynlluniad ei gyd-swyddogion yn y Sanhedrin, ac erbyn dydd y croeshoelio (pennod 19) roedd yn gwbl agored ei fod am wasanaethu Iesu drwy gludo'r corff oddi ar y groes a'i eneinio. Nid oes mwy o sôn amdano yn y Testament Newydd, ond tybir ei fod yn un o ddilynwyr Iesu wedi dydd yr Atgyfodiad.

Myfyrdod

Faint o bobl sy'n gwranddo yn y dirgel, ac yn sylweddoli eu bod yn agos at ddal gafael ar wirionedd? Mae'r cyfeiriad at Nicodemus yn dod at Iesu 'liw nos' yn medru cyfeirio at yr amser o'r dydd, ond hefyd ei fod yn dod at Iesu ar amser tywyll ac angen profi goleuni llawn. Nid oes modd i ni ddyfalu faint sy'n clustfeinio ar neges yr eglwys ac yn dyheu am brofi argyhoeddiad cyflawn. Cefais neges destun yn ddiweddar gan berson a nodai iddo wrthfawrogi fy ffydd wedi i mi arwain angladd perthynas agos iddo.

Roedd Nicodemus wedi gweld gallu Iesu yn cyflawni gwyrthiau, a bod grym

Duw gydag Iesu. Yn ystod y tri hanesyn a glywn am Nicodemus, roedd ei ddi-ddordeb yn Iesu yn cynyddu, fel pe bai'n symud o'r tywyllwch i oleuni, o guddio'i ddi-ddordeb i wrthwynebu cynllwyn y Phariseaid, ac yna'n gwbl agored ei ddatganiad ei fod yn gwerthfawrogi bywyd a dysgeidiaeth Iesu. Piti na chawsom glywed yn Llyfr yr Actau fod Nicodemus yn un o aelodau'r Eglwys.

Yn y drydedd bennod, darllenwn yr adnod sy'n crynhoi craidd yr Efengyl, sef bod cariad Duw cymaint fel 'y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef ond caffael ohono fywyd tragwyddol'. Onid yw'n arwyddocaol fod y *datganiad* hwn yn eistedd yng nghanol hanes y Pharisead yn ymholi am y bywyd newydd sydd gan Iesu i'w rannu. Aeth o gael meddwl agored, ymholgar, i ymroi i ddangos i'w gyd-Phariseaid ei fod wedi gwrthwynebu eu cynlluniau a'i fod o blaid Iesu.

Gweddi

Diolch iti, Arglwydd, am hanes Nicodemus mewn tri hanesyn difyr. Gweddiwn y bydd pobl o blith yr anffyddwyr yn barod i wrando ar y dystiolaeth ac edrych ar berson Iesu a'r dystiolaeth amdano. Clyw ein llef, yn enw'r Gwaredwr byw. Amen.

Trafod ac ymateb:

- A ydym yn fodlon cyfaddef ein bod wedi camddeall rhywbeth sylfaenol am ein ffydd?
- Pwy all fesur faint sy'n clywed y neges Gristnogol yn dirgel yn eu cartrefi y dyddiau hyn? Sut all yr eglwys barhau i wasanaethu'r rhain?
- Clywodd Nicodemus graidd yr Efengyl (Ioan 3:16) a chael ei gynhesu a'i newid ganddi. Meddyliwch am y person mwyaf annhebygol o ymateb i'r Efengyl yn eich tyb chi, a gweddiwch am gyfle i rannu ei chraidd yn syml gyda nhw.

Llythyr



Annwyl Olygydd,

Pe bawn i'n nes at Eifion Wynne, Rhuthun, a phetai pellter cymdeithasol ddim yn bodoli, mi fyddwn i'n ysgwyd ei law yn frwd am yr hyn ysgrifennodd yn y Pedair Tudalen ar 17 Gorffennaf 2020.

Nid dyma'r lle i fynd drwy'r erthygl ar 'Addoli wedi Covid', oherwydd dwi'n cytuno â'r cyfan a ddywed. Ond mi rydw i am gydio mewn rhannau o ddau baragraff tua diwedd yr erthygl: 'Daw sawl cwestiwn i'm meddwl ar ailagor addoldai. Ymhlith y pennaf ohonynt yw: tybed a fydd arweinyddion enwadol yn dilyn eu cwys eu hunain a chynnig cyfarwyddiadau ar wahân ...? Y tro hwn, nid oes achos i unrhyw eglwys nac enwad i weithredu ar wahân, oherwydd fe ddysgodd pawb yn

fuan nad oes gan haint Covid-19 unrhyw ffiniau. Yr un yw ei effaith ar bawb yn ddiwahân, waeth pa gapel, eglwys neu enwad.'

Wel, Eifion Wynne, dwi'n credu ein bod ni i gyd yn gwybod erbyn hyn mai ar wahân y mae'r enwadau wedi gweithio eto, a hynny ar fater allasai ac a ddylai fod wedi ein huno. Dydi hyn ddim yn feirmiadaeth ar gynnwys y dogfennau sydd wedi'u hanfon gan yr holl enwadau – maent yn dda, yn dda iawn, a dweud y gwir. Ond, mi rydw innau'n sefyll yn yr union fan ag awdur yr erthygl ac wedi fy sobri na allai hyd yn oed yr argyfwng pennaf ein hysgwyd i weithredu ar y cyd, oherwydd mae hwn yn rhywbeth y gellid bod wedi'i wneud felly. Gwiriondeb fyddai beirmiadu un enwad ar draul y lleill a dweud, 'Ar yr enwad-a'r-enwad y mae'r bai' ar y mater yma. Y gwir amdani ydi bod bai arnynt i gyd. Y cwestiwn sy'n codi

yn sgil hyn ydi lle mae Cytûn? Onid y corff hwn ddylai weithredu ar fater fel hwn? Ond y mae'n ymddangos i mi fod Cytûn yn gweithredu fel enwad ychwanegol.

Does dim byd yn fy synnu i bellach, ond wedi dweud hynny, dwi'n parhau i'w hystyried yn ffrainc cael tystio dros Iesu Grist, yr Iesu sy'n fwy nag unrhyw enwad – pob un ohonynt! Tybed fedrech chi a minnau gytuno ag englyn y diweddar W. J. Bowyer, Bae Colwyn, i 'Eglwys ac Enwadaeth'? Fedra i'm yn fy myw gofio'r ddwy linell gyntaf ond mi fedra i gofio'r ddwy olaf:

Enwadaeth sy'n ei thlodi,
Pla ein hoes yw'n 'capel ni'.

Diolch am y sylwadau cyfoethog,

Yn gywir iawn,

Iwan Llewelyn

MODDION GRAS

Cyfes yn ystyried beth sy'n angenrheidiol wrth inni barhau i addoli a gwasanaethu ein Harglwydd Iesu Grist yn y cyfnod hwn.

gan y Parch. PETER H. DAVIES

1. EGLWYS

Pwy sy'n perthyn i'r eglwys? Beth yw eglwys? Pam mae angen eglwys? Sut mae'r eglwys i weithio?

Dyma rai cwestiynau pwysig ynglŷn â'r eglwys. Wrth ffael cynnal oedfaon yn ein capeli yn ystod y clwyf Corona mae natur eglwys wedi dod yn bwnc blaenllaw iawn. Mae wedi esgor ar drafodaeth berthnasol am fywyd a gwaith yr eglwys, ac mae'n gyfle inni ystyried beth sy'n angenrheidiol er mwyn parhau i fod yn eglwys sy'n addoli ein Harglwydd Iesu Grist.

Yn draddodiadol, cysylltir y term 'eglwys' ag eglwys y plwyf o'i gwrthgyferbynnu â'r capel. Tyfodd gwahaniaeth rhwng eglwys a chapel wrth i Anghydfurfiaeth ddatblygu. Adeilad yw capel, beth bynnag, tra mai pobl yw eglwys. Gall eglwys gwrdd mewn capel neu mewn adeilad arall. Yn hanes y ffydd Gristnogol mae eglwysi wedi ymrannu'n enwadau amrywiol oherwydd gwahaniaethau diwinyddol a hyd yn oed oherwydd personoliaethau (1 Corintiaid 1:10). Dylid cofio, er hynny, fod undod yng Nghrist yn goresgyn gwahaniaethau enwadol.

Mae'r Beibl yn sôn am eglwys Dduw (Actau 20:28). Iesu Grist yw pen yr eglwys (Colosiaid 1:18); ac mae'n parhau â'i weinidogaeth yn ei eglwys drwy'r Ysbryd Glân (Ioan 14:26).

Bwriad Iesu Grist yw adeiladu ei eglwys drwy alw pobl o'r byd ato'i hun (Mathew 16:18); ystyr y gair *eglwys* yw *galw mas* (Groeg: *ekklesia*). Pobl sy'n credu yn Iesu

Grist sy'n perthyn i'r eglwys, a phrif nodweddion bywyd yr eglwys yw dysgeidiaeth, cymdeithas, cymundeb a gweddi (Actau 2:42) – moddion gras.



Fel pen yr eglwys, mae'r holl aelodau, gan gynnwys y swyddogion, yn atebol i Iesu Grist. Gall eglwysi amrywio o ran eu llywodraeth a'u trefn henaduriaethol neu gynulleidfaol, ond dylid cofio mai theocratiaeth ac nid democratiaeth yw'r eglwys. Er bod yna lawer o eglwysi lleol, eto un eglwys holl-gyffredinol sydd, a honno'n eglwys filwriaethus weladwy ar y ddaear ac yn eglwys fuddugoliaethus anweladwy yn y nefoedd (Hebreaid 12:1). Egwyddor lywodraethol swyddogaeth eglwysig yw gwasanaeth (Mathew 20:25–8).

Mae gan bob aelod eglwysig ddawn i'w chyfrannu yng ngwaith yr eglwys (1 Corintiaid 12:7). Mae Iesu Grist wedi

galw rhai pobl i weinidogaethau neilltuol i 'gymhwysu'r saint i waith gweinidogaeth, i adeiladu corff Crist' (Effesiaid 4:11–12). Y tu mewn i'r eglwys ceir dau brif fath o swydd, sef esgob/henuriad a diacon. Gwaith esgob/henuriad yw dysgu, gofalu, goruchwyllo ac annog (1 Timotheus 3:1–7; Titus 1:5–9) ynghyd ag arwain y tu mewn i'r eglwys (1 Timotheus 5:17). Gwaith diacon yw 'gweini wrth fyrddau', h.y. gofalu am anghenion materol yr eglwys (Actau 6:2–3).

Mae angen eglwys fel bod pobl yn dod i berthynas â Duw. Mae'r Beibl yn rhoi pwyslais ar yr eglwys fel pobl sy'n perthyn i Grist. Y nod yw eu bod yn tyfu'n gyflawn yng Nghrist (Effesiaid 4:13).

Mae'r eglwys i gyhoeddi Efengyl Teyrnas Dduw yng ngrym yr Ysbryd Glân (1 Thesalonaiad 1:5). O ran canllawiau, gellid dweud: byddwch yn weddigar, yn Feiblaidd ac yn gariadlawn.

Ynglŷn â disgyblaeth eglwysig (wrth ddisgyblaeth, ni olygir cosb yn gymaint â hyfforddiant – noder *disgybl*), mae angen doethineb a chariad i arfer hyn. Ynghylch cyllid yr eglwys, egwyddor lywodraethol y Testament Newydd yw y dylai pob un roi heibio fel y llwyddodd Duw ef (1 Corintiaid 16:2). Mewn perthynas â sacramentau'r eglwys, mae bedydd a chymundeb yn arwyddion allanol o wirioneddau dyfnion. Ond rhagor am yr angenrheidiau hyn i gyd eto wrth inni barhau â'r gyfes dros yr wythnosau nesaf.

Un sylfaen fawr yr Eglwys yr Arglwydd Iesu yw, ei greadigaeth newydd drwy ddŵr a gair ein Duw; ei briodasferch sanctaidd o'r nef i'w cheisio daeth, â'i waed ei hun fe'i prynodd a'i bywyd ennill wnaeth.

Samuel John Stone

Datblygiadau gwefan gobaith.cymru

Datblygwyd gwefan gerddoriaeth gobaith.cymru fel rhan o waith elusennol Gobaith i Gymru, ac erbyn hyn mae'r wefan dan ofal Cyngor yr Ysgolion Sul. Ar y wefan ceir geiriau dros 1,000 o emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes Cymraeg – y man canolog i lawrlwytho emynau a chyfieithiadau awdurdodedig o eiriau caneuon Saesneg.

Yn aml iawn, ceir tri neu bedwar fersiwn Cymraeg o emyn cyfoes Saesneg wrth i unigolion mewn gwahanol ardaloedd gyfieithu ar gyfer eu defnydd mewn eglwysi lleol. Er mwyn safoni a chadw rheolaeth ar y cyfieithiadau answyddogol hyn, mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn trafod â deiliaid yr hawlfraint swyddogol er mwyn cytuno ar eiriad derbynol i'r awduron gwreiddiol a'r cyfieithwyr, a'r fersiynau hyn sydd yn y



pen draw yn ymddangos ar ein gwefan. Byddwn yn gwirio ac yn golygu geiriau caneuon sy'n cael eu hanfon atom, cyn eu gosod ar y wefan fel dogfen eiriau ac fel cyflwyniad PowerPoint. Rydym yn hapus i dderbyn geiriau emynau a chaneuon cyfoes gwreiddiol Cymraeg hefyd er mwyn eu cynnwys ar wefan www.gobaith.cymru.

Un cam arall sydd wedi ei wneud gennym yn ystod y misoedd diwethaf yw creu rhestr gyfeirio helaeth o'r holl emynau y gwyddom amdanynt sydd ar gael yn ddwyieithog, hynny yw, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae dros 700

o emynau ar y rhestr: ceir y geiriau Cymraeg a'r fersiwn Saesneg cyfatebol wrth eu hymyl, ac yn yr un modd ceir rhestr yn nhrefn yr wyddor o eiriau emynau a chaneuon Saesneg a'r geiriau Cymraeg awdurdodedig cyfatebol wrth eu hymyl.

Heb os, fe fydd hwn yn adnodd gwerthfawr iawn i'r sawl sy'n paratoi oedfaon yn y ddwy iaith. Nid ydym yn honni bod y rhestr hon yn gyflawn o bell ffordd, a byddem yn falch iawn o glywed gan rywrai sy'n gwybod am emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes eraill sydd ar gael yn y ddwy iaith. Mae'r cyfan ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan: www.gobaith.cymru.

Aled Davies,
Cyngor yr Ysgolion Sul

Yr Athro Glyn O. Phillips (1927–2020)

Gyda thristwch y daeth newyddion ddechrau mis Gorffennaf am farwolaeth yr Athro Glyn O. Phillips yn ei gartref yn Radur ar gyrion Caerdydd. Roedd yn wyddonydd disglair, yn addysgwr arloesol ac yn gyfathrebwr graenus. Cefnogai'r pethau gorau yn ein cymdeithas a'n gwlad, a bydd colled enfawr ar ei ôl mewn llawer cylch.

Cafodd yrfa ddisglair gan raddio mewn Cemeg a sicrhau doethuriaeth yn y brifysgol ym Mangor cyn ennill cymrodoriaeth i'r Adran Gemeg yng Nghanolfan Ymchwil Atomig Harwell. Yno defnyddiodd ymbelydredd i ddeall a dadansoddi effeithiau'r ynni newydd ar nodweddion fel carbohydradau. Aeth ymlaen i ddarlithio ym Mhrifysgol Caerdydd cyn cael ei benodi'n Athro Cemeg ym Mhrifysgol Salford. Datblygodd gysylltiadau rhyngwladol mewn ymchwil a chreu timau arbenigol a chynhyrchiol i ddelio â meysydd ymchwil newydd. Yn ystod ei yrfa cyhoeddodd dros 750 o erthyglau gwyddonol ac mae'n awdur neu'n olygydd dros 60 o lyfrau. Roedd hefyd wedi golygu tri chylchgrawn gwyddonol dros nifer o flynyddoedd.

Ym 1975 fe'i penodwyd yn Bennaeth Gweithredol Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru, sefydliad newydd oedd yn uno pedwar coleg. Roedd yr Athrofa'n cyfuno addysg bellach ag addysg uwch alwedigaethol, ac roedd arweiniad clir a chadarn Glyn yn creu sefydliad uchel ei barch drwy'r wlad. Sicrhodd ddatblygiadau newydd o bob math gan osod yr Athrofa yng nghanol strategaeth adfywio economaidd yr ardal yn dilyn y diweithdra difrifol yn y diwydiant dur lleol ddechrau'r 1980au.

Roedd yn arweinydd ysbrydoledig ac yn eangfrydig yn ei ddiddordebau gwyddonol. Meddai ar ddawn unigryw i ddod â phobl o wahanol gefndiroedd at ei gilydd i gydweithio. I Glyn, prif bwrpas gwyddoniaeth oedd bod yn gyfrwng i wella bywyd ei gyd-ddyn. Gwelai gysylltiadau rhwng gwaith labordy a'r economi ac/neu iechyd cyhoeddus. O ganlyniad, gwnâi i bethau ddigwydd yn ymarferol a sicrhau llwyddiant. Mae'r math yma o weledigaeth ac ynni wedi newid bywydau pobl ym mhedwar ban byd.

Ar ôl 'ymddeol' o arwain yr Athrofa yn 1992 manteisiodd ar y cyfle i ddatblygu meysydd newydd. Sefydlodd Ganolfan Ymchwil Hydrocolloid Glyn O Phillips yn Wrecsam a datblygu mentrau masnachol gwyddonol yn China a Siapan. Cafodd wahoddiad gan

Asiantaeth Ryngwladol Ynni Atomig i arwain prosiect i sefydlu banciau meinwe mewn nifer helaeth o wledydd. Canolfannau yw'r rhain a fyddai'n derbyn ac yn prosesu meinwe fel croen, asgwrn, tendon, madruddyn, a chornbilennau (cornea) ar gyfer eu defnyddio mewn meddygaeth.



Llun: BBC Cymru

Yma yng Nghymru, mae llawer yn ei adnabod oherwydd ei waith yn golygu *Y Gwyddonydd* am dros 30 mlynedd ac am ei waith cyhoeddus yn darlledu a chyflwyno gwyddoniaeth a thechnoleg i gynulleidfau leyg ar y radio ac ar y teledu. Roedd cyfathrebu yn dod yn hollol rwydd iddo fel gwyddonydd ac arweinydd sefydliad.

Drwy gydol ei yrfa derbyniodd Glyn anrhydeddau niferus: cymrodoriaeth gan Gymdeithas Frenhinol Cemeg, Prifysgol Glyndŵr a'r Gymdeithas Ddysgedig; graddau er anrhydedd gan Brifysgol Cymru a Phrifysgol Benin yn Nigeria. Bu'n Is-ganghellor yn Benin yng nghyfnod sefydlu'r brifysgol. Mae nifer o gymdeithasau gwyddonol a meddygol o bob rhan o'r byd wedi ei anrhydeddu a derbyniodd Fedal Gwyddoniaeth a Thechnoleg gyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2004. Er yr anrhydeddau haeddiannol yma i gyd, y fwyaf yn ei dyb ef 'oedd cael ei wneud yn flaenor yn eglwys Iesu Grist'. Dyna ei eiriau ef ei hun ar Raglen Dewi Llwyd ychydig flynyddoedd yn ôl.

Dilema gwyddonydd, yn wahanol iawn i rai mewn disgyblaethau eraill, yw bod gofyn parhaus arno i egluro a chysoni ei waith a'i ffydd. I Glyn, roedd gwyddoniaeth 'yn agwedd o ddatguddiad Duw' ac nid yn faes gwrthdaro â chrefydd. Edmygai'n fawr iawn y cemegydd damcaniaethol disglair Charles Coulson FRS oedd hefyd yn bregethwr cynorthwyol gyda'r

Wesleaid yn Lloegr ac a gyhoeddodd yn helaeth ar y berthynas ddiwahân rhwng ffydd a gwyddoniaeth.

Drwy gydol ei fywyd roedd y capel yn ganolog i'w fywyd. Cafodd ei ddwyn i fyny yng nghapel Moriah, Rhosllannerchrugog, a chyflwynodd y Parch J. L. Mostyn-Owen destament iddo pan oedd yn gadael i fynd i'r coleg â'r geiriau: "am y cymorth a roddodd i mi fel gweinidog, ac am ei wasanaeth medrus a ffyddlon fel organydd". A gall gweinidogion eraill yr Hen Gorff yn Heol y Crwys, Caerdydd, yng nghapel Willow Tree Road, Altrincham, a Bethesda'r Wyddgrug hefyd dystio i'w gefnogaeth ddiysgog bob amser.

Fel Athro a Phennaeth, roedd yn mynnu ymroddiad a'r safon uchaf bosib gan ei fyfyrwyr a'i gyd-weithwyr. Drwy'r blynyddoedd bu'n gyfaill triw, a phleser bob amser oedd cael bod yn ei gwmmi.

Estynnaf fy nghydymdeimlad llwyrfa â Rhiain, ei wraig, ag Elen ac Aled a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Bydd bwlbch mawr ar ei ôl ar yr aelwyd ac mae Cymru a'r Gymraeg wedi colli cymwynaswr a llysgennad oedd yn driv i'w wreiddiau a'i ffydd.

Dr Haydn E Edwards

BBC | radio
cymru

Oedfa Radio Cymru

Oedfa Radio Cymru am 12:00yp,
2 Awst (yn ystod Gŵyl Amgen)
yng ngofal Eurig Salisbury
a Hywel Griffiths.

Gŵyl AmGen Radio Cymru – Cymanfa Codi'r To

Fe fydd cyfle i bob un sy'n mwynhau
Cymanfa Ganu'r Eisteddfod
Genedlaethol i ymuno â'r arweinydd
Trystan Lewis yn *Cymanfa Codi'r To*,
rhan o ŵyl AmGen Radio Cymru
nos Sul, 2 Awst, am 7.00pm –
a hynny o glydwch eich cartrefi.

Mae emynau'r gymanfa wedi eu dewis yn barod, ac fe fydd y manylion yn cael eu cyhoeddi ar wefan BBC Radio Cymru: www.bbc.co.uk/radiocymru. Fe fydd yr wybodaeth yma hefyd yn cael ei rhannu'n helaeth ar y gwefannau cymdeithasol. Y cyfan fydd ei angen arnoch chi ydi copi o *Caneuon Ffydd!* Os nad oes gennych chi gopi, fe fydd hi yn bosibl gweld a lawrlwytho'r geiriau, eto ar wefan Radio Cymru.

Duw ar Zoom

Diolch yn fawr i **Casia William** am rannu ei cherdd gyda ni. Cyflwynwyd y gerdd gyntaf ar raglen Bwrw Golwg ar Radio Cymru, Sul Gorffennaf 5ed. Casia yw Bardd y Mis ar Radio Cymru y mis hwn. (Gol.)



Rhywsut aeth Duw yn ddiarth.
Rhwng y naw tan bump a plant i'w gwllâu a gwaith yn galw
doedd dim lle iddo yn sêd fawr fy mywyd.

Bob hyn a hyn ddi yn ôl yn annisgwyl
wrth i mi lenwi troli, neu lyncu'r Ê ffôr sefnti
ond wastad â chymun o euogrywyd
am beidio twyllu ei ddy cyhyd.

Ond rwan, a ninnau yng nghanol
y tywyllwch tywyllaf,
dyma fo, ar fy nglin,
lond y sgrin,
lond y gegin.

Duw ar Zoom.

A ffasiwn sinig, mi daerwn y byddwn
wedi mynd am y groes yn syth,
ond na, arhosais ennyd
i glywed adnod,
i geisio ei lais eto,
i weld os medrwn estyn croeso iddo
yn fy nhÿ fy hun.

Ac yn lle'r festri oer a chwech yn gwmni
dyma lond y we o gwmpeini;
a dros goffi,
mewn pajamas,
yn ein gwllâu ella,
daeth y ne' atom ni.

O dro i dro,
rwan ei bod hi'n dechra g'leuo,
wrth i mi osod bwrdd neu
hel llestri brecwast,
mewn eiliad o heddwch,
mi ga i ryw air bach efo fo

a mae o'i weld ddigon bodlon
i ni gwrrd fel hyn,
yn bytiog rhwng prydau,
a minnau heb ddim byd am fy nhraed.

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ailagor manau addoli: coronafeirws

Fe gyhoeddwyd Canllawiau ar gyfer rheoli ailagor manau addoli a gweddio'n ddiogel yn ystod pandemig y coronafeirws a'u diweddarau ar 20.7.20.

Fe gynhwysir y Trosolwg o'r canllawiau yma a dolen i'r ddogfen ganllawiau ei hun. Mae'r rhain i'w hystyried ynghyd ag unrhyw ganllawiau a ddaw gan yr enwadau y perthyn ein hadeiladau a'n heglwysy iddynt.

Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn gyffredinol eu natur a dylid eu hystyried ar y cyd â chanllawiau penodol eraill er mwyn sicrhau y gall cynulladau yn yr awyr agored gymryd lle yn ddiogel a manau addoli gynnig amgylcheddau diogel mewn perthynas â COVID-19. Eu nod yw darparu gwybodaeth ddefnyddiol, dolenni a chyngor ymarferol er mwyn cefnogi'r rhai sy'n gyfrifol am fannau addoli i ailagor manau addoli (os byddant yn dymuno) yn unol â newidiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 sydd bellach yn caniatáu i fannau addoli gael eu hailagor ar gyfer cydaddoli a seremonïau crefyddol.

Mae'r canllawiau wedi cael eu hysgrifennu'n benodol ar gyfer manau addoli a chynulladau grwpiau ffydd a chred. Mae unrhyw un sy'n gyfrifol am fan addoli yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i'r diben o leihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafeirws i wneud y canlynol:

1. cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pob person mewn mangre ac sy'n aros i fynd i mewn i'r fangre (heblaw aelodau o'r un aelwyd, neu aelwyd estynedig neu ofalwr i aelod o'r aelwyd);
2. cymryd mesurau eraill i'r un diben;
3. darparu gwybodaeth i'r rhai sydd yn y fangre ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafeirws.

Nid yw'r canllawiau hyn yn gosod dyletswydd na gofyniad ar fannau addoli i ailagor. Ni fydd yn bosibl ailagor ar gyfer ystod lawn o weithgareddau am gryn dipyn o amser eto. Efallai y bydd rhai manau addoli yn dewis peidio ag ailagor am beth amser, yn cymryd mwy o amser i agor a/neu barhau i ddefnyddio technoleg arlein i gynnal gweithgareddau ffydd a bugeiliol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru ac i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Ailagor Mannau Addoli am eu cyngor a'u cefnogaeth wrth baratoi'r canllawiau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru a grwpiau cred i ddatblygu cynllun ar gyfer ailagor manau addoli yn raddol ac yn ddiogel a threfniadau cynulladau yn yr awyr agored. Caiff y canllawiau hyn eu hadolygu a'u diwygio wrth i'r sefyllfa a'r cyngor gwyddonol ynghylch risgiau trosglwyddo newid.

Y ddogfen Gymraeg lawn:

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ailagor-mannau-addoli-coronafeirws-html>

Y ddogfen Saesneg lawn:

<https://gov.wales/guidance-reopening-places-worship-coronavirus-html>

Cyfeiriad Golygydd Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

pedair.tudalen@gmail.com

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn cael eu cynnwys yn rhan o bapurau wythnosol tri enwad, sef *Y Goleud* (Eglwys Bresbyteriaidd Cymru), *Seren Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r *Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

Ffydd... a diwylliant

Set a Sê

Beth amser yn ôl fe ysgrifennais ddarn am antur a gefais wrth deithio rhyw fore Sul o fy sê arferol yn y capel draw i'r 'ochr arall', a'r pethau rhyfedd ac ofnadwy a welais yno.

Ond pwy feddyliai yr adeg hynny y byddai'r olygfa wedi newid cymaint mewn cyn lleied o amser?

Bellach rydyn ni'n dechrau dod i arfer â gwasanaethau Zoom.

Rydym yn wynebu'n gilydd yn ein gogoniant. Erbyn hyn nid braint y sawl sy'n annerch y gynulleidfa'n unig yw gweld wyneb pawb. Nid syllu ar war y naill a'r llall ydyn ni, ond gwenu'n llydan ar ein gilydd a chodi llaw.

Roedd ein harbrawf cyntaf ni gyda thechnoleg Zoom ar Sul y Pentecost a phan holwyd ni i gyd-ddarllen Salm, a neb wedi mudo'i feicroffon, roedd hi'n llanast a phawb yn siarad ar draws ei gilydd. Gwnaed y sylw craff ein bod ni'n siŵr o fod wedi profi peth o ysbryd y Pentecost gwreiddiol.

Ac o feddwl am y peth efallai bod yna goesau i'r sylw hwnnw. Oes mae acw anhrefn. Ond mae o'n anrhefn braf am nad oes yna drefn i'w dilyn. Rydyn ni'n llythrennol yn torri tir newydd.

Mae ffurf y gwasanaeth wedi bod yn



wahanol bob tro. Yn sicr mae hi wedi bod yn fyrrach. Ac i aralleirio jôc rhywun arall, ma hi'n braf gallu taro 'mute', 'pause' a 'fast forward' ambell dro wrth wrando ar y bregeth.

Mae pobl yn cerdded i mewn ac allan, yn cyrraedd yn hwyr a gadael yn gynnar. Yn aml iawn y bobl sydd ddim yn gwybod lle

mae'r botwm 'mute' yw'r rhai sy fwyaf o'i angen o. Ond mae honno'n ddameg arall.

Ond mae'r eglwys yma yn ein cartrefi ni, yn ein ystafelloedd byw ni neu'n ystafelloedd gwely ni. A thra'n bod ni'n wynebu'n gilydd yn ein gogoniant gwalltog a blêr, rydyn ni'n mynd â'n llyfrau a'n lluniau, ein llwch a'n llanast efo ni i'r capel.

Ond fel rydyn ni'n gwisgo dillad parch, gallwn hefyd ddewis be sy o flaen y camera. Efallai fod y plant yn rhedeg yn noeth y tu hwnt iddo fo, neu efallai bod y wraig yn gwrando yn ei chyrlyrs. Un bore Sul cefais gwmni'r Rev James, nid golygydd y *Goleuad*, ond triawd o boteli cwrw gwag ers y noson gynt, ond doedd y gynulleidfa ddim callach.

Mae'n cynulleidfa oedd ni wedi cynnwys teulu a chyfeillion o'r tu hwnt i Aberystwyth, o Loegr ac un ymwelydd rheolaidd o Siapan. Does dim ffiniau. Mae'r bobl mwyaf annisgwyl wedi cymryd at y dechnoleg a thra bod rhai heb droi i mewn, mae rhai eraill oedd byth yn tywyllu capel wedi ymuno. Bellach rydyn ni'n dechrau caniatáu i ni ein hunain feddwl am fynd yn ôl. Fe fydd hynny'n rhyddhad i lawer.

Ond i lawer mae'r cyfle i feddwl y tu allan i'r bocs wedi bod yn rhyddhad hefyd. Gobeithio na fydd popeth yn mynd yn ôl i mewn i'r bocs hwnnw, ac y bydd rhywfaint o anrhefn braf yr eglwys fore yn aros ar y gwynt.

Arwel Rocet Jones

GWERTHFAWROGIAD AC ADOLYGIAD

Diwinyddiaeth Paul, gan gynnwys sylw arbennig i'w ddehonglwr Cymreig, John Tudno Williams, Gwasg Prifysgol Cymru, 2020, tt. 230, £17.99

'Gair o werthfawrogiad sydd eisiau', meddai Golygydd hynaws y Goleuad wrth iddo geisio fy mherswadio i adolygu'r gyfrol hon: gwerthfawrogiad o gyfraniad sylweddol yr Athro John Tudno Williams i fywyd academaidd Cymru ac i'r Cyfundeb dros y blynyddoedd. Ar yr amod hwnnw y cytunais i dynnu sylw at y gyfrol, oherwydd mae yna rai llawer mwy cymwys na mi i ysgrifennu adolygiad teilwng o waith ysgolheigaidd fel hwn, ac edrychwn ymlaen at ddarllen eu sylwadau mewn cylchgronau eraill maes o law.

Dyma ddechrau gyda'r awdur, felly. Bydd cenedlaethau o fyfyrwyr yr Hen Gorff yn cofio John Tudno fel darlithydd ym meysydd yr Hen Destament a'r Testament Newydd yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Pryd hynny, a hyd at yr amser presennol, mae wedi bod yn ddiwyro'i farn bod yn rhaid diogelu safon academaidd y weinidogaeth yn ein plith. Dros y blynyddoedd mae wedi bod yn flaenllaw yn Adran Addysg y Cyngor Eglwys Rhyddion dros Brydain, a bu'n Llywydd

ar y sefydliad hwnnw. Daliodd nifer o brif swyddi'r Cyfundeb, megis Llywydd y Gymdeithasfa yn y De a Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, ond nid yw hynny wedi ei rwystro rhag cyfrannu'n helaeth i fywyd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, yn ogystal â'i eglwys ei hun yng Nghapel Seion.

Bydd llawer ohonom yn dilyn gyda diddordeb ei gyfres yn y *Goleuad*, 'Y Silff Lyfrau', ac yn teimlo'n falch o gael ysgolhaig Beiblaidd o safon John Tudno yn cyhoeddi'n gyson yn y Gymraeg. Cofiw'n hefyd ei gyfraniad amhrisiadwy i wahanol gyfieithiadau Cymraeg o'r Ysgrifur yn eu tro: *Y Ffordd Newydd* (1969), *Y Beibl Cymraeg Newydd* (1988), a'r *Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig)*, 2004). Cefais innau'r fraint o gydweithio ag ef fel cyd-olygyddion y *Llyfr Gwasanaethau* newydd, ac fe'i cefais yn gydweithiwr a chyfaill da wrth gyflawni'r gorchwyl hwnnw. Mae wedi rhoi'n helaeth, ac mae'n para i roi, o'i ddoniau fel ysgolhaig Testament Newydd o'r radd flaenaf at wasanaeth ei eglwys a'i genedl, ac rwy'n falch o

ymateb i wahoddiad y Golygydd i achub y cyfle hwn i ddweud, ar ran pawb ohonom, 'Diolch, John, am hyn oll.'

Ond peidiwn ag anghofio un maes arall lle mae John wedi gwasanaethu, a hynny gyda'i drylwyredd arferol, dros nifer mawr o flynyddoedd, a hynny yw fel Ysgrifennydd Bwrdd y Ddarlith Davies. Efallai mai ei adroddiad ef bob blwyddyn yn y Gymanfa Gyffredinol yw un o'r rhai byrraf (!), ond y tu ôl iddo mae llawer o waith a sêl dros yr achos. Yn 1993 ef ei hun a draddododd y Ddarlith, ac roedd yn anochel y byddai'n dilyn trywydd a fu o ddiddordeb arbennig iddo ers dyddiau prifysgol yn Rhydychen, sef Paul a'i ddiwinyddiaeth. Y testun bryd hynny oedd 'Paul a'i Ddehonglwr Cymreig', a dyna deitl y gyfrol dan sylw, sy'n ffrwyth chwarter canrif o astudiaeth ac ymchwil. Braidd yn gamarweiniol yw'r is-deitl, oherwydd er bod yr awdur yn dynnu sylw at ysgolheigion Cymraeg a Chymreig megis David Adams, C. H. Dodd, W. D. Davies, Isaac Thomas, Owen E. Evans ac eraill, mae ei rychwant (a'i Lyfryddiaeth!) yn ehangach o lawer na hynny.

Glyn Tudwal Jones, Caerdydd

(**Gol:** A chawn gyfle'r wythnos nesaf i roddi sylw neilltuol i'r gyfrol ei hun.)

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Yn dawel, yn guddiedig, o'r golwg, bydd Teyrnas Nefoedd yn cynyddu nes dod yn goeden fawr, neu lefain sy'n lefeinio'r cwbl.

GWEDDI

O Arglwydd ein craig a'n prynwr, ein Bugail da, a ddoi di atom heddiw er mwyn i'n meddyliau a'n deall, ein serchiadau a'n hewyllys gael eu cyffwrdd gennyf. Gad i ni eistedd gyda thi, a chael ein bendithio ynot ti, a chael ein bywhau trwot ti. Arglwydd, trugarha wrthym drwy dy Ysbryd Glân. Yn Iesu Grist. Amen

EMYN 592: Ysbryd Glân

DARLLEN: Mathew 14:13-21 – Porthi'r Pum mil

Cyd-destun yr hanes a gofnodir yw bod y newyddion wedi cyrraedd Iesu bod Herod yn credu mai Iwan Fedyddiwr yr un a laddwyd ar ei orchymyn, wedi ei atgyfodi, oedd Iesu. Pan glywodd Iesu hyn, heblaw am dristau am golli ei gefnder, am golli un nad oedd 'neb mwy' nag ef yn bod (11:11), am weld diwedd gyrfa'r 'Elias sydd ar ddod,' mae'n siŵr ei fod yn ymwybodol bod y sylw gwleidyddol bellach wedi ei droi a'i ganolbwyntio, arno ef. Roedd y sefydliad crefyddol eisoes wedi troi yn ei erbyn ac yn cynllwynio i'w ladd. (12:14)

Ar yr un pryd, o ddarlenn efengyl Iwan mae'n amlwg bod yna elfen o gynllwynio ar ran arweinwyr y dorf. Teithiasant i'r lle unig, o'r neilltu' yr oedd Iesu wedi cilio iddo gyda'i ddisgyblion i alaru. Roedd lleoliad y digwyddiad yn ôl Iwan ar gyrion, ond y tu hwnt, i ffiniau llywodraeth a dylanwad Herod Antipas. Mae'n amlwg, yn ôl Iwan, bod y dyrfa am gipio Iesu i'w wneud yn frenin arnynt. A chawn rhai esbonwyr yn awgrymu bod y cyfrif o 5,000 heblaw 'gwagedd a phlant' yn awgrymu bod gwagedd a phlant yn absennol o 'rali' oedd yn llawn o emosiwn gwleidyddol. Mwy tebygol, fodd bynnag, yw bod Mathew yn adleisio trefn o gyfrif a welwyd wrth nodi bod 'tua chwe chan mil o wŷr traed, heblaw gwagedd a phlant' wedi gadael yr Aiff (Exodus 12:37)

Wrth sylwi ar y testun yn fanylach nodwn:

1. Ymateb Iesu: gwelsom cyn hyn bod Iesu'n dweud amdano'i hun ei fod yn 'addfwyn'. A nodwyd wrth edrych ar Math. 11:28 bod y gras sydd yn yr Arglwydd Iesu Grist yn datgelu'n hangen ac yn cwrdd â'r angen ei

hun. Ac mae angen y 'torfeydd' a'i 'dilynasant' (ad 13) yn cyffroi tosturi Iesu. Dyma'r bugail da sy'n cyflawni addewidion Duw – 'byddaf fi fy hunan yn chwilio am fy mhraidd a gofalu amdanynt...' (Eseciel 34:11) Er iddo gael ei wrthod yn Nasareth (13:34) ac er i Iwan gael ei ferthuru roedd dyfnder y trueni a'r angen a welsai yn galw ar ddyfnder tosturi'r Arglwydd. Peidiwn byth â meddwl yn wahanol. Ein hangen am Waredwr, am noddfa, am dosturi barodd i'r Arglwydd ddod ei hun i fyd amser a hanes yn Waredwr tosturiol, yn noddfa ddigonol.

- 2. Her Iesu:** nid dim ond mewn egwyddorion i'w trafod y gwelwyd tosturi Iesu. Fel y cafodd ei ddisgyblion eu galw i fod gydag ef ac i fod yn dystion i'w ddaioni ef, yn awr caiff y disgyblion eu galw, nid yn unig i adnabod angen, ond hefyd i ymateb i'r angen. Nid digon yw dweud wrth y dorf i fynd i brynu bwyd. 'Rhowch chwi rywbeth' yw ei alwad arnynt. Nid digon gweld angen byd heddiw. Gwnewch chwithau rywbeth am y peth meddai Iesu. A meddylwch am yr holl elusennau, yr holl fudiadau sydd wedi ei symbylu gan yr alwad.
- 3. Darpariaeth Iesu:** 'dewch â hwy yma' oedd ei orchymyn. Bara a physgod – bwyd cyffredin gwerin Galilea. Ac eto yn nwylo Iesu mae iddynt arwyddocâd neilltuol. Gydag Iesu dōnt yn rhagflas o'r wledd Feseianaidd hir-ddisgwyliedig. Yn gyntaf cawsant wahoddiad i eistedd – i ledorwedd – er mwyn gwledda gyda'r Meseia. Nid byr bryd i'w fwyta ar frys, ond egwyl i'w ryfeddu, swper wedi ei ddarparu i'r anghenus gan Iesu ei hun. Ac yn y ddarpariaeth rasol hon daw'r 'eglwys' yn rhan o'r fendith. Yn rhan o'r ateb. Ond Iesu yw'r darparwr. Ei fendith, ei lawnder sy'n bodloni newyn y dorf.
- 4. Mwy na phroffwydi?:** yn yr ysgrythurau Iddewig gwelwn hanesion am Foses yn darparu manna a chig i'r bobl yn yr anialwch. Ond nid Moses, mewn gwirionedd, ddarparodd y gynhaliaeth. Duw ei hun, achubwr y bobl a ddarparodd fwyd iddynt. Ond y mae yma Un oedd yn fwy na Moses. Oherwydd Iesu, yr Un a'i bendithiodd yn awr

yw'r darparwr. Ac onid oedd Eliseus hefyd wedi lluosogi torthau i'r newynog. Ond y mae yma un sy'n fwy nag Eliseus.

- 5. Bendith Iesu:** Nid damweiniol yw iaith a geirfa Mathew. Y mae yma adlais o eiriau cyfarwydd i Gristnogion wrth fwrdd y Cymun. Wedi 'bendithio... torrodd' y torthau i'w rhannu. Do fe gafodd y dyrfa eu digoni, ac roedd digonedd dros ben. Mae Iesu'n fendithiwr helaeth, yn ddarparwr helaeth, yn digoni, yn bodloni, yn bendithio'r rhai sy'n eistedd gydag ef ac yn ei gwmpeini. Ac ni phallodd ei allu. Ni pheidiodd ei dosturi. Nid ataliwyd ei law. Ac i ni fel unigolion yn unigedd y byd a'i heriau; i fyd sy'n newynog am gyfiawnder, am arweinydd triw a geirwir a thrugarog mae Iesu'n aros i ni eistedd yn ei gwmni a swperu gydag ef ac yntau gyda ninnau (Datg. 3:21).

GWEDDI

O Dad, pan edrychwn ar y byd a'i helbulon, ei drafferthion, ei ddiodefaint, a'i gelwydd, rhyfeddwn dy fod yn parhau i fod yn amyneddgar tuag at dy gread, a thuag at y ddynolryw a grëwyd ar dy lun a'th ddelw. Pan edrychwn ar dy eglwys yn ein gwlad, ar wendid, ar lesgedd dy bobl, ein hofnau a'n diffyg hyder rhyfeddwn dy fod yn parhau i arddel dy blant. Ond yr wyt ti yn drwi, yn ffyddlon, yn gadarn, yn fywyd, ac mae dy gariad tuag atom yn arswydd o anorchfygol. Heb atalfa, heb rwystr, heb droi'n ôl. Diolch am ein caru i'r eithaf. A diolch na all eithafion bywyd ein gwahanu oddi wrth dy gariad angerddol yng Nghrist.

Gweddiwn dros y byd ... Dros fudiadau dyngarol Cristnogol fel Cymorth Cristnogol, Tear Fund, Barnabas, Open Doors, a Christnogion yn Lesotho. Diolch am fedru cynorthwyo dy eglwys a bod yn rhan o'r ddarpariaeth. Diolch nad yw'r cwpanaid o ddŵr oer a estynnwn yn dy enw heb ei wobwr.

Cofiwn am ein bröydd, ein capeli, ein gweinidogion, ein blaenoriaid ein cynulleidfaoedd wrth i ni geisio cynllunio i'r dyfodol.

GWEDDI'R ARGLWYDD.

EMYN 488: Am Iesu Grist

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: goleuad@ebcpcw.cymru

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.